DATGANIAD YSTADEGOL

Cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau Haf 2018 yng Nghymru:

TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2

Uchafbwyntiau, Cyfres Haf 2018

24 Mai 2018

Cofrestriadau TGAU yr Haf



Roedd **290,640** o gofrestriadau **TGAU** ar gyfer cyfres Haf 2018.

Gostyngiad o **13.0%** mewn cofrestriadau **TGAU**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Cofrestriadau TGAU yr Haf yn ôl grŵp blwyddyn



Gostyngiad o **77.4%** mewn cofrestriadau blwyddyn 10 neu is

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Cofrestriadau ar gyfer arholiadau UG a Safon Uwch cyfres yr Haf

Gostyngiad o **8.1%** mewn cofrestriadau Lefel UG

Gostyngiad o **5.3%** mewn cofrestriadau Safon Uwch



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am nifer y cofrestriadau arholiadau dros dro yng Nghymru ar gyfer cyfres haf 2018. Mae'r datganiad yn cwmpasu cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, tystysgrifau Lefel 1/2 a'r Dystysgrif Her Sgiliau ar gyfer canolfannau yng Nghymru. Cyflwynwyd y data i ni gan gyrff dyfarnu erbyn 18 Ebrill cyn cyfres haf 2018.

Cyhoeddwyd yr ystadegau hyn o dan gydymffurfiaeth wirfoddol â chod ymarfer UKSA. Cyhoeddwyd datganiad o gydymffurfiaeth wirfoddol ochr yn ochr â'r datganiad hwn.

Cynnwys

Cyflwyniad..... 2
Ystadegau..... 5
Rhestr termau..... 36
Nodiadau cefndir..... 38

Ystadegydd: Stefanie Taylor 01633 373 275 ystadegau@cymwysteraucymru.org

Ymholiadau gan y wasg: 01633 373 216 cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

CYFLWYNIAD

Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

O flwyddyn academaidd 2017/18, byddwn yn casglu ac yn adrodd ar ddata yng Nghymru ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Cyn blwyddyn academaidd 2017/18, roedd data ar gyfer Cymru yn cael eu casglu a'u cyhoeddi gan Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr. Mae'r cymariaethau a wneir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Ofqual ar gyfer haf 2017.

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau TGAU, UG a Safon Uwch, Tystysgrifau Lefel 1 a Lefel 2 a Thystysgrif Her Sgiliau yng Nghymru ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018. Mae'r ffigurau'n cynrychioli nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau, wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu erbyn 18 Ebrill 2018, gan adlewyrchu'r sefyllfa ar 17 Ebrill 2018. Gall y ffigurau cofrestriadau newid yn ddyddiol hyd at ddiwrnod yr arholiadau. Fel arfer, byddai myfyrwyr unigol wedi cofrestru ar gyfer mwy nag un cymhwyster ar draws pynciau.

DYLANWADAU ALLANOL

Mae nifer o ffactorau a all ddylanwadu ar newidiadau yn nifer y cofrestriadau ar gyfer grwpiau blwyddyn dros amser, er enghraifft newidiadau i'r canlynol:

- maint y boblogaeth;
- ymddygiad cofrestru e.e. pryd y caiff dysgwyr eu cofrestru ar gyfer eu harholiadau TGAU;
- nifer y cymwysterau o bob math a sefir ar gyfartaledd;
- y mathau o gymwysterau ôl-16 a sefir.

Gan fod y datganiad hwn yn seiliedig ar nifer y cofrestriadau ar lefel cymhwyster, nid yw'n bosibl i ni feintioli effaith ffactorau o'r fath. Dim ond pan rydym yn hyderus bod ffactorau yn debygol o arwain at newid rydym wedi gwneud sylwadau ar ffactorau sy'n dylanwadu ar newidiadau yn nifer y cofrestriadau.

Diwygio cymwysterau

Yn dilyn adolygiad gan Lywodraeth Cymru o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed[1] yn 2012, cyflwynwyd cyfres newydd o gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch

[1] Welsh Government (2014) Review of Qualifications 14-19. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf [Gwefan a fynedwyd ar 17 o Fai 2018].

diwygiedig yng Nghymru. Mae'r cymwysterau diwygiedig hyn wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

Cyflwynwyd y cymwysterau diwygiedig i'w haddysgu gyntaf mewn tri cham. Addysgwyd cymwysterau Cam 1 o fis Medi 2015, cymwysterau Cam 2 o fis Medi 2016 a chymwysterau Cam 3 o fis Medi 2017. Ceir gwybodaeth am y newidiadau hyn, a rhestr o'r pynciau ym mhob Cam ar ein gwefan[2].

I gyd-fynd â'r diwygiadau yng Nghymru, cafodd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch newydd eu cyflwyno yn Lloegr hefyd. Mewn rhai pynciau lle ceir nifer isel o ymgeiswyr, mae cymwysterau wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr, ond nid Cymru. Mewn achosion o'r fath, gall y cymwysterau sydd wedi'u diwygio ar gyfer Lloegr gael eu cynnig fel rhan o gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Gellir cymharu'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru a Lloegr o hyd – maent o'r un maint ac yn hygyrch i'r un ystod o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau cynllunio allweddol rhyngddynt. Mae cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn parhau i gael y graddau A*-G, ond mae'r cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr bellach yn destun system raddio 9-1. Mae canlyniadau cymwysterau UG a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru yn cyfrannu 40% tuag at radd Safon Uwch. Nid yw canlyniadau cymwysterau UG yn cyfrif mwyach tuag at y cymwysterau Safon Uwch newydd a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr.

Yn y datganiad hwn, mae'r termau "cymwysterau TGAU diwygiedig", "cymwysterau UG diwygiedig" a "chymwysterau Safon Uwch diwygiedig" yn cyfeirio at y cymwysterau newydd a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer Cymru, oni nodir fel arall.

Mewn pynciau lle mae cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u diwygio ar gyfer Cymru, nid yw cymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr ar gael i'w defnyddio yng Nghymru ar gyrsiau a ariennir yn gyhoeddus. Mae dau brif senario lle y gallai dysgwyr yng Nghymru astudio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr:

- Mae cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gynigir mewn pynciau nad ydynt wedi'u diwygio'n benodol ar gyfer Cymru yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus.
- Lle nad yw'r ddarpariaeth wedi'i hariannu'n gyhoeddus, fel sy'n digwydd mewn ysgolion annibynnol, gall canolfannau ddewis cofrestru dysgwyr ar gyfer

[2] http://qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/tgau-a-safon-uwch/diwygio-cymwysterau-cyffredinol/pa-bynciau-sydd-ar-gael/

cymwysterau a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr, er bod cymhwyster diwygiedig cyfatebol ar gyfer Cymru.

Mesurau perfformiad

Mae'n bosibl bod newidiadau diweddar i fesurau perfformiad yn dal i effeithio ar nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU yr haf hwn. O 2017, roedd uchafswm o ddau gymhwyster nad ydynt yn gymwysterau TGAU yn cyfrif tuag at fesurau sy'n seiliedig ar drothwyon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. At hynny, nid yw cymwysterau TGAU Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg yn cyfrif mwyach tuag at elfennau llythrennedd y trothwy lefel 2 cynwysedig na'r sgôr 9 pwynt wedi'i chapio.

Yn 2018, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno newid arall i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4. Ar ôl hynny, dim ond cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth fydd yn cyfrif tuag at elfen Gwyddoniaeth y sgôr 9 pwynt wedi'i chapio. Yn flaenorol, caniatawyd i gymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol gyfrif[3].

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddwyd newidiadau i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrifo mesurau perfformiad. O haf 2019, dim ond cofrestriad cyntaf disgybl ar gyfer arholiad TGAU fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgol. Cyn hynny y radd orau a gyflawnwyd oedd yn cyfrif. Mae hyn yn golygu y gallai graddau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ysgol 2017/18 gan ddisgyblion blwyddyn 10 neu iau gyfrif tuag at fesurau perfformiad. Mae hyn yn debygol o effeithio ar nifer y cofrestriadau a nodir yn y datganiad hwn, yn enwedig ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 neu iau.

Bagloriaeth Cymru

Cafodd Bagloriaeth newydd ei chyflwyno i'w haddysgu yng Nghymru am y tro cyntaf o fis Medi 2015. Mae Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf ddiwygiedig yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau i ysgolion a cholegau AB gynyddu'n raddol gyfran y myfyrwyr sy'n sefyll Bagloriaeth Cymru, gyda'r nod o sicrhau y bydd y mwyafrif llethol o ddysgwyr yng Nghymru yn ei sefyll fel rhan o'u rhaglen astudio erbyn 2019/20. Caiff cofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau eu cynnwys yn yr ystadegau yn y cyhoeddiad hwn.

[3] Ceir rhagor o wybodaeth am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru yn: https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2017/12/06/diweddariad-gan-y-prif-ystadegydd-deall-newidiadau-i-ddata-addysg/

YSTADEGAU

COFRESTRIADAU TGAU

SUT MAE COFRESTRIADAU TGAU YR HAF YN CYMHARU Â RHAI'R LLYNEDD?

Ffigur 1: Cyfanswm cofrestriadau TGAU yn ôl grŵp blwyddyn, haf 2018 o gymharu â haf 2017



	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2017	2,030	61,280	254,580	7,055	9,150	334,095
2018	860	13,430	260,695	7,530	8,130	290,640
% newid	-57.8%	-78.1%	2.4%	6.7%	-11.1%	-13.0%

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Cafwyd 290,640 o gofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2018, sef gostyngiad o 13.0 y cant o gymharu â'r cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2017.
- Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau ar gyfer pob grŵp blwyddyn heblaw am Flwyddyn 11 a Blwyddyn 12 yr haf hwn.
- Blwyddyn 10 a Blwyddyn 9 neu is oedd y grwpiau blwyddyn â'r gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau TGAU yr haf hwn o gymharu â'r llynedd. Y gostyngiadau hyn oedd y prif reswm am y gostyngiad cyffredinol mewn cofrestriadau TGAU yr haf hwn.
- Mae'n debygol mai'r cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 (gweler mesurau perfformiad) sydd i gyfrif am y gostyngiadau ym Mlwyddyn 10 neu is. Mae'r cyhoeddiad yn golygu y gallai graddau cyntaf a

gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ysgol 2017/18 gan ddisgyblion Blwyddyn 10 neu iau gyfrif tuag at fesurau perfformiad.

- Gwelwyd gostyngiad o 2.4 y cant mewn cofrestriadau Blwyddyn 11 o gymharu â'r haf diwethaf. Mae'n debyg y gellir priodoli hyn i'r newid yn strwythur, ac felly, patrymau cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau gwyddoniaeth diwygiedig.

Ffigur 2: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU, haf 2018 o gymharu â haf 2017



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Cofrestriadau Blwyddyn 11 oedd y mwyafrif o'r holl gofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2018, gydag 89.7 y cant yn ddysgwyr Blwyddyn 11. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu o gymharu â 76.2 y cant yr haf diwethaf.
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is yn cyfrif am 5.4 y cant o'r holl gofrestriadau TGAU yr haf hwn; mae hyn yn cymharu â 18.9 y cant o gofrestriadau yr haf diwethaf.
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 12 neu uwch yn cyfrif am gyfran ychydig yn uwch o'r holl gofrestriadau TGAU eleni (5.4 y cant) o gymharu â'r haf diwethaf (4.9 y cant).

CYMWYSTERAU TGAU DIWYGIEDIG

Mae dau gam o gymwysterau TGAU diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu dyfarnu yr haf hwn.

Roedd y cymwysterau diwygiedig hyn yn cyfrif am 209,445 (72.1 y cant) o holl gofrestriadau haf 2018. Roedd gweddill y cofrestriadau TGAU yr haf hwn yn cynnwys cymwysterau etifeddol (a all gynnwys ailsefyll arholiadau), pynciau nas diwygiwyd neu gymwysterau a ddiwygiwyd i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr (gweler diwygio cymwysterau).

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 1

Roedd cofrestriadau TGAU Cam 1 yn cyfrif am 38.6 y cant o gyfanswm y cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2018. Dyfarnwyd y cymwysterau hyn hefyd yn ystod haf 2017.

Ffigur 3: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl grŵp blwyddyn, haf 2018 o gymharu â haf 2017



	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2017	40	45,710	100,010	2,230	4,160	152,150
2018	20	8,590	89,445	6,245	7,760	112,060
% newid	-57.1%	-81.2%	-10.6%	180.3%	86.6%	-26.3%

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Gwelwyd gostyngiad o 26.3 y cant yng nghyfanswm y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 1 yng Nghymru o 152,150 o gofrestriadau yn ystod haf 2017 i 112,060 o gofrestriadau yn ystod haf 2018. Gwelwyd cynnydd a gostyngiadau gwahanol ar draws grwpiau blwyddyn yn 2018.

Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn cofrestriadau yr haf hwn ym Mlwyddyn 10, gyda gostyngiad o 81.2 y cant o 45,710 o gofrestriadau yn ystod haf 2017 i 8,590 o gofrestriadau yn ystod haf 2018. Mae'n debygol mai'r cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 (gweler mesurau perfformiad) syn gyfrifol am hyn. Y grŵp blwyddyn hwn yw'r prif reswm am y gostyngiad cyffredinol mewn cofrestriadau ar gyfer pynciau diwygiedig cam 1.

Gostyngodd cofrestriadau Blwyddyn 11 10.6 y cant yr haf hwn o gymharu â haf 2017. Efallai mai'r ffaith bod rhai myfyrwyr Blwyddyn 11 wedi cofrestru ar gyfer y cymwysterau hyn yn gynnar yn ystod haf 2017 neu fis Tachwedd 2017 ond nad ydynt yn ailsefyll yr arholiadau yr haf hwn sydd i gyfrif am hyn.

Gwelwyd cynnydd o 4,015 yn nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn ystod haf 2018 o gymharu â haf 2017. Cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Saesneg Iaith, Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd, y mae llawer ohonynt yn debygol o fod yn arholiadau sy'n cael eu hailsefyll, sydd i gyfrif am y cynnydd hwn. Cafodd dysgwyr y cyfle i ailsefyll y cymwysterau hyn ym mis Tachwedd 2017. Fodd bynnag, ar gyfer y pynciau llinol hyn, rhaid i bob uned gael ei hailsefyll o fewn yr un gyfres ac, o'r herwydd, efallai bod mwy o ddysgwyr wedi aros tan yr haf i ailsefyll y cymhwyster. Gwelwyd cynnydd mawr o 3,605 o gofrestriadau ym Mlwyddyn 13 ac uwch hefyd yr haf hwn o gymharu â'r haf diwethaf.

Tabl 1: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2018 o gymharu â haf 2017

Pwnc	2017	2018	Gwahaniaeth %
Saesneg	55,385	27,475	-50.4%
Llenyddiaeth Saesneg	16,510	23,835	+44.3%
Mathemateg	37,325	29,565	-20.8%
Mathemateg: Rhifedd	33,170	23,000	-30.7%
Llenyddiaeth Gymraeg	3,330	3,325	-0.0%
Cymraeg: Iaith Gyntaf	6,430	4,865	-24.3%
Cyfanswm	**152,150**	**112,060**	**-26.3%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Dengys Tabl 1 nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc ar gyfer haf 2018 a haf 2017. Gwelwyd gostyngiadau mawr ym mhob pwnc o gymharu â haf 2017, ac eithrio Llenyddiaeth Saesneg lle gwelwyd cynnydd o 44.3 y cant a Llenyddiaeth Gymraeg, lle gwelwyd gostyngiad bach.

Cafwyd 4,865 o gofrestriadau ar gyfer Cymraeg: Iaith Gyntaf yr haf hwn, sef gostyngiad o 24.3 y cant o gymharu â haf 2017. Cafwyd gostyngiadau ym mhob grŵp blwyddyn

ond gwelwyd y gostyngiad cyfrannol mwyaf, sef 76.4 y cant, ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10 (gweler tabl 6 yn y tablau data excel cyfatebol). Mae'n debygol mai cyhoeddiad Llywodraeth Cymru mai'r graddau cyntaf a gyflawnir gan ddisgyblion Blwyddyn 10 neu iau fydd yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ysgolion o'r flwyddyn academaidd 2017/18 yn hytrach na'r graddau gorau a gyflawnir (a fu'n diwgydd yn y blynyddoedd blaenorol), sydd i gyfrif am y newidiadau hyn ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10 ac is.

Ceir dadansoddiad manylach ar gyfer Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd yn y dadansoddiad o bynciau TGAU â mwy o gofrestriadau isod (er mai cofrestriadau ar gyfer cymwysterau diwygiedig cam 1 oedd yn cyfrif am fwyafrif y cofrestriadau hyn).

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 2

Tabl 2: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl grŵp blwyddyn a phwnc, haf 2018[4]

Pwnc	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
Celf a Dylunio	*	100	7,525	60	50	7,740
Bioleg	0	20	6,870	60	110	7,065
Cemeg	0	10	6,745	45	20	6,825
Drama	*	55	2,225	10	*	2,300
Bwyd a Maeth	0	35	1,905	15	*	1,960
Ffrangeg	15	15	3,480	10	*	3,525
Daearyddiaeth	0	25	7,265	30	*	7,320
Almaeneg	*	10	735	*	0	755
Cerddoriaeth	*	15	2,110	15	*	2,145
Addysg Gorfforol	0	40	6,725	25	*	6,790
Ffiseg	0	10	6,740	40	10	6,795
Gwyddoniaeth Gymhwysol Gradd Unigol	0	10	455	15	30	510
Gwyddoniaeth: Dwyradd	0	5	42,330	210	5	42,555
Sbaeneg	15	25	1,045	10	5	1,100
Cyfanswm	**45**	**385**	**96,160**	**550**	**245**	**97,385**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru

Dengys Tabl 2 nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig cam 2 yng Nghymru yn ystod haf 2018, sef y tro cyntaf y mae dysgwyr wedi cael y cyfle i ennill

[4] Mae Gwyddoniaeth: Dwyradd yn cynnwys Gwyddoniaeth (Dwyradd) a Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd).

gradd yn y cymwysterau hyn[5]. Cafwyd 97,385 o gofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn yn ystod haf 2018, sy'n cyfrif am 33.5 y cant o gyfanswm y cofrestriadau TGAU. Dysgwyr Blwyddyn 11 oedd yn cyfrif am y mwyafrif o'r cofrestriadau hyn (98.7 y cant). Mae'r cofrestriadau ymhlith dysgwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn isel gan mai dyma'r tro cyntaf i'r cymwysterau hyn gael eu dyfarnu ac felly nid oes unrhyw ddysgwyr yn ailsefyll yr arholiadau. Gallai'r cyhoeddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 (gweler mesurau perfformiad) fod yn gyfrifol am y nifer isel o gofrestriadau ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 10.

Mae pob pwnc gwyddonol wedi'i ddiwygio ar gyfer Cymru yn yr ail gam hwn. Gall dysgwyr gofrestru ar gyfer gwyddorau unigol (Cemeg, Ffiseg, Bioleg), Gwyddoniaeth: Dwyradd (gan gynnwys Gwyddoniaeth Gymhwysol Dwyradd) neu Wyddoniaeth (Gwyddoniaeth Gymhwysol Gradd Unigol ddiwygiedig). Mae Gwyddoniaeth: Dwyradd yn disodli'r ddau gymhwyster TGAU etifeddol, Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol. Mae'r newidiadau hyn yn cyd-fynd â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfres 2018, sef y bydd dau gymhwyster TGAU Gwyddoniaeth yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad ac na fydd cymwysterau gwyddoniaeth galwedigaethol yn cyfrif mwyach. Mae cofrestriadau ar gyfer Gwyddoniaeth: Dwyradd yn cael eu cyfrif fel dau gofrestriad yn y datganiad hwn. Mae hyn oherwydd bod maint cymhwyster y cymwysterau diwygiedig yn gyfwerth â dau gymhwyster TGAU. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn gyson â'r dull a ddefnyddir ar gyfer adrodd data am gofrestriadau ar gyfer y cymwysterau TGAU diwygiedig yn y grŵp pwnc 'Gwyddoniaeth: Dwyradd'

[5] Fodd bynnag, mae rhai cymwysterau TGAU yn unedol ac efallai bod dysgwyr wedi cwblhau un uned neu fwy cyn cofrestru ar gyfer y cymhwyster cyfan yr haf hwn.

CYFANSWM Y COFRESTRIADAU AR GYFER CYMWYSTERAU TGAU YR HAF YN ÔL PWNC

Tabl 3: Cyfanswm cofrestriadau TGAU yn ôl pwnc, haf 2018 o gymharu â haf 2017[6]

Pwnc TGAU	2017	2018	Newid canrannol
Gwyddoniaeth Ychwanegol	16,460	0	-
Gwyddoniaeth Ychwanegol (Pellach)	390	0	-
Pynciau Celf a Dylunio	8,290	7,905	-5%
Bioleg	6,540	7,275	+11%
Systemau Busnes a Chyfathrebu	290	135	-53%
Astudiaethau Busnes	3,580	3,730	+4%
Cemeg	6,405	7,030	+10%
Astudiaethau Dinasyddiaeth	85	35	-57%
Pynciau Clasurol	130	160	+22%
Cyfrifiadura	1,825	1,885	+3%
Adeiladu	0	0	-
Dylunio a Thechnoleg	7,000	5,800	-17%
Drama	2,200	2,390	+9%
Economeg	65	80	+21%
Peirianneg	290	190	-35%
Saesneg	59,045	27,890	-53%
Llenyddiaeth Saesneg	16,780	24,125	+44%
Paratoi Bwyd a Maeth (a)	N/A	1,975	N/A
Ffrangeg	3,845	3,645	-5%
Daearyddiaeth	8,125	7,535	-7%
Almaeneg	830	825	-0%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	1,305	1,445	+11%
Hanes	9,735	9,090	-7%
Economeg y Cartref	2,315	1,690	-27%
Lletygarwch	255	295	+17%
Y Dyniaethau	180	0	-100%
TGCh	6,885	6,370	-7%
Gwyddeleg	0	0	-
Hamdden a Thwristiaeth	315	265	-15%
Gweithgynhyrchu	0	0	-
Mathemateg	42,230	29,970	-29%
Mathemateg: Rhifedd	33,170	23,000	-31%
Mathemateg (Ychwanegol)	0	0	-
Astudiaethau'r Cyfryngau / Ffilm / Teledu	1,855	1,690	-9%
Cerddoriaeth	2,440	2,240	-8%
Celfyddydau Perfformio / Mynegiannol	585	25	-96%
Addysg Gorfforol	7,395	7,325	-1%
Ffiseg	6,380	6,995	+10%
Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	30	0	-100%
Astudiaethau Crefyddol	29,865	20,940	-30%
Gwyddoniaeth	5,275	510	-90%
Gwyddoniaeth: Dwyradd	0	42,740	-
Pynciau Gwyddorau Cymdeithasol	2,275	1,745	-23%
Sbaeneg	1,580	1,205	-24%
Ystadegau	250	195	-22%
Llenyddiaeth Gymraeg	3,330	3,325	-0%
Cymraeg: Iaith Gyntaf	6,455	4,865	-25%
Cymraeg: Ail Iaith	25,165	21,080	-16%
Ieithoedd Modern Eraill	650	680	+4%
Gwyddorau Eraill	470	330	-30%
Technoleg Arall	20	5	-61%
Pob Pwnc arall	1,510	*	-100%
Cyfanswm	**334,095**	**290,640**	**-13%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

[6] Defnyddir Dd/G lle nad oes unrhyw grwpiau pynciau JCQ. Roedd paratoi bwyd a maeth ar gael am y tro cyntaf eleni.

Mae Tabl 3 yn cymharu cyfanswm y cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2018 a haf 2017 yn ôl pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau TGAU etifeddol, cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Cymru a chymwysterau TGAU a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr. Dim ond ar gyfer 12 pwnc y gwelwyd cynnydd mewn cofrestriadau o gymharu â'r haf diwethaf. Gwelwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg (44 y cant).

Mae'r cofrestriadau ar gyfer Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol wedi gostwng yn 2018, yn bennaf am nad yw'r cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth etifeddol hyn ar gael i ddysgwyr mwyach.

Yn 2018, cafwyd 42,740 o gofrestriadau ar gyfer Gwyddoniaeth: Dwyradd, gyda chofrestriadau'n cael eu cyfrif ddwywaith. Mae cofrestriadau ar gyfer Bioleg, Cemeg a Ffiseg yn fwy yn 2018 nag yr oeddent yn 2017. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn cyd-fynd â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru bod dau gymhwyster TGAU Gwyddoniaeth yn cyfrif tuag at eu mesurau perfformiad (gweler mesurau perfformiad).

Mae cofrestriadau ar gyfer Cymraeg: Ail Iaith wedi gostwng 16 y cant i 21,080 o gofrestriadau ar gyfer haf 2018. Lleihad yn nifer yr ymgeiswyr ym Mlwyddyn 9 neu is a Blwyddyn 10 oedd yn gyfrifol am y gostyngiad hwn. Efallai mai'r ffaith bod graddau cyntaf dysgwyr yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad o'r flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen sydd i gyfrif am hyn.

Ffigur 4: Cofrestriadau TGAU Haf 2018 wedi'u dadansoddi yn ôl pwnc



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru

CYFANSWM Y COFRESTRIADAU AR GYFER PYNCIAU TGAU Â NIFER FWY O GOFRESTRIADAU YN ÔL GRŴP BLWYDDYN, HAF 2018

Fel y dangosir yn Ffigur 4, y pum pwnc TGAU â'r nifer fwyaf o gofrestriadau yn haf 2018 oedd Gwyddoniaeth: Dwyradd, Mathemateg, Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, a Mathemateg – Rhifedd, a Gwyddoniaeth: Dwyradd. Trafodir y pynciau hyn yn fanylach isod.

Gwyddoniaeth: Dwyradd

Yr haf hwn caiff y cymhwyster Gwyddoniaeth: Dwyradd ei ddyfarnu am y tro cyntaf. Felly, ni allwn wneud cymariaethau â'r haf diwethaf.

Ffigur 9: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Gwyddoniaeth: Dwyradd



- Roedd bron bob un o'r cofrestriadau (99.5 y cant) yn Haf 2018 ar gyfer Blwyddyn 11.
- Roedd 0.5 y cant o'r cofrestriadau ar gyfer Blwyddyn 12 neu uwch.

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru;

Tabl 7: TGAU Gwyddoniaeth: Dwyradd yn ôl grŵp blwyddyn, haf 2018

Gwyddoniaeth: Dwyradd	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2018	0	10	42,510	220	5	42,740

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru

Cafwyd 42,740 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth: Dwyradd yn haf 2018. Mae'r cymwysterau hyn yn disodli'r cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth a Gwyddoniaeth Ychwanegol etifeddol. Rhoddwyd y cyfle olaf i ailsefyll y cymwysterau hyn ym mis Ionawr 2018. Gwelwyd cynnydd mewn cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau gwyddoniaeth ar wahân yn haf 2018 o gymharu â haf 2017: Bioleg (11 y cant), Cemeg (10 y cant) a Ffiseg (10 y cant) (gweler tabl 3).

TGAU Saesneg Iaith

Ffigur 5: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Saesneg Iaith



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Tabl 4: Cofrestriadau ar gyfer Saesneg Iaith yn ôl grŵp blwyddyn, cyfresi haf 2018 a 2017

Saesneg Iaith	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2018	5	805	20,610	2,730	3,735	27,890
2017	10	21,090	31,115	2,945	3,885	59,045

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Haf 2017 oedd y tro cyntaf i'r cymhwyster TGAU Saesneg Iaith diwygiedig a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yng Nghymru gael ei ddyfarnu. Roedd cyfres Tachwedd 2017 yn gyfres ailsefyll yn unig – dim ond y rheini a safodd yr arholiad yn haf 2017 oedd yn gallu cofrestru ym mis Tachwedd. Byddai cohort Blwyddyn 11 yn 2018 wedi cael y cyfle i sefyll Saesneg Iaith yng nghyfres haf 2017 (fel myfyrwyr Blwyddyn 10) a chyfres Tachwedd 2017 (fel cyfle i ailsefyll).

Dim ond ar gyfer cyfres haf 2017 y gallai'r cohort Blwyddyn 11 blaenorol gofrestru gan mai dyma'r tro cyntaf i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu. Gallai'r gwahaniaeth hwn o ran cyfleoedd i gofrestru egluro maint y newid mewn cofrestriadau ymhlith myfyrwyr Blwyddyn 11 rhwng 2017 a 2018.

- Cafwyd 27,890 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yn haf 2018, llai na hanner y cofrestriadau a gafwyd yn haf 2017 (59,045 o gofrestriadau).

- Mae Saesneg Iaith yn cyfrif tuag at y mesurau perfformiad, felly mae'r cyhoeddiad ynghylch defnyddio graddau cyntaf i gyfrifo mesurau perfformiad (gweler mesurau perfformiad) yn debygol o fod wedi cyfrannu at y gostyngiad mawr mewn cofrestriadau Blwyddyn 10 eleni, gyda dim ond 805 o gofrestriadau yr haf hwn, o gymharu â 21,090 y llynedd.
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is yn cyfrif am 35.7 y cant o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yng nghyfres haf y llynedd, a dim ond 2.9 y cant o gofrestriadau yn haf 2018.
- Fodd bynnag, oherwydd y gostyngiad mawr mewn cofrestriadau Blwyddyn 10 eleni, mae cyfran Blwyddyn 11 o'r cofrestriadau ar gyfer haf 2018 wedi cynyddu – 73.9 y cant o gofrestriadau yn haf 2018 o gymharu â 52.7 y cant o gofrestriadau yr haf diwethaf.
- Mae cyfran y cofrestriadau gan fyfyrwyr Blwyddyn 12 neu uwch hefyd yn uwch eleni – 23.2 y cant o gofrestriadau o gymharu ag 11.6 y cant o gofrestriadau y llynedd. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd y gostyngiad mewn cofrestriadau Blwyddyn 10 ac yn rhannol oherwydd mai'r gyfres hon oedd cyfres gyntaf yr haf lle y gallai dysgwyr Blwyddyn 12 ailsefyll yr arholiad TGAU Saesneg Iaith diwygiedig.

TGAU Llenyddiaeth Saesneg

Ffigur 6: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Llenyddiaeth Saesneg



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Tabl 5: Cofrestriadau Llenyddiaeth Saesneg yn ôl grŵp blwyddyn, cyfresi haf 2018 a 2017

Llenyddiaeth Saesneg	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2018	*	5,195	18,805	105	20	24,125
2017	*	2,055	14,640	75	10	16,780

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Haf 2017 oedd y tro cyntaf i'r cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg diwygiedig a gymeradwywyd i'w ddefnyddio yng Nghymru gael ei ddyfarnu. Dim ond ar gyfer cyfres yr haf y gellir cofrestru ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg a dim ond bryd hynny y gellir ei ddyfarnu[7], felly yr haf hwn yw'r ail gyfle i sefyll y cymhwyster TGAU diwygiedig. Nid oedd TGAU Llenyddiaeth Saesneg yn cyfrif tuag at yr elfennau llythrennedd o'r mesurau perfformiad Lefel 2 Cynwysedig neu Sgôr 9 Pwynt wedi'i Chapio yn haf 2017.

- Cyfanswm y cofrestriadau ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg oedd 24,125 (cynnydd o 43.7 y cant yn haf 2018 o gymharu â haf 2017).
- Gwelwyd cynnydd mewn cofrestriadau ym mhob grŵp blwyddyn yn haf 2018 o gymharu â haf 2017.
- Yn haf 2017, gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau Blwyddyn 11 gan fod cyfran sylweddol o'r cohort wedi cofrestru ar gyfer y cymhwyster etifeddol yn haf 2016, pan oeddent ym Mlwyddyn 10[8].
- Y gostyngiad hwn mewn cofrestriadau Blwyddyn 11 yn haf 2017 yw'r prif reswm dros y cynnydd ymddangosiadol mewn cofrestriadau Blwyddyn 11 yr haf hwn (18,805 o gofrestriadau) o gymharu â'r haf diwethaf (14,640 o gofrestriadau).
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 11 yn cyfrif am 78.0 y cant o gyfanswm y cofrestriadau ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg yn haf 2018, o gymharu ag 87.2 y cant yn haf 2017.

[7] Cymhwyster unedol yw'r cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg diwygiedig, ac mae uned y gellir cofrestru ar ei chyfer yng nghyfres Ionawr

[8] Dangosodd ffigurau Ofqual fod mwy o gofrestriadau Blwyddyn 10 ac is yn haf 2016 (7,570 o gofrestriadau). Cyfran y cofrestriadau Blwyddyn 10 ac is yn haf 2016 oedd tua 25 y cant (Gweler Ofqual (2017) *Provisional entries for summer 2017 series for Wales*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/619382/Summer_2017_exam_entries_GCSEs_Level_1_2_AS_and_A_levels_Wales.xlsx [Gwefan a fynedwyd ar 17 o Fai 2018].)

- Arhosodd cyfran y cofrestriadau Blwyddyn 12 neu uwch yn ddigyfnewid ar gyfer y ddwy gyfres haf, gan gyfrif am 0.5 y cant yn unig ar gyfer y ddwy flynedd.
- Er gwaethaf y cyhoeddiad ynghylch cofrestru'n gynnar, gwelwyd cynnydd yng nghyfran y cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is a gafwyd yn haf 2018, gan gyfrif am 21.5 y cant o gyfanswm y cofrestriadau ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg eleni, o gymharu â 12.2 y cant o gofrestriadau'r llynedd.
- Y cynnydd mwyaf oedd ar gyfer Blwyddyn 10, gyda chynnydd o 3,140 o gofrestriadau. Cafwyd 5,195 o gofrestriadau ar gyfer haf 2018, dros ddwbl y nifer a gafwyd y llynedd.

TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg - Rhifedd

TGAU Mathemateg gafodd y nifer fwyaf o gofrestriadau TGAU dros dro yn haf 2018, gyda chyfanswm o 29,970 o gofrestriadau. Mathemateg – Rhifedd gafodd y nifer uchaf ond tri o gofrestriadau dros dro, gyda 23,000 o gofrestriadau.

Ffigur 7: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Mathemateg



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Ffigur 8: Cymharu grwpiau blwyddyn TGAU Mathemateg - Rhifedd



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Ar gyfer haf 2018, roedd dysgwyr Blwyddyn 11 yn cyfrif am 78.4 y cant o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg ac 85.1 y cant o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd. Mae hyn yn cymharu â 61.4 a 61.7 y cant yn haf 2017, yn y drefn honno.
- Roedd cofrestriadau Blwyddyn 10 neu is yn cyfrif am 2.1 a 7.7 y cant o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd yn haf 2018, yn y drefn honno. Mae hyn wedi gostwng o 24.7 a 33.6 y cant yn haf 2017, yn y drefn honno. Mae'r cyhoeddiad ynghylch defnyddio graddau cyntaf i gyfrifo mesurau perfformiad (gweler mesurau perfformiad) yn debygol o fod wedi cyfrannu at y gostyngiad mawr mewn cofrestriadau Blwyddyn 10 eleni.
- Roedd 19.5 y cant o'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg o Flwyddyn 12 neu uwch, a 7.2 y cant ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd. Mae hyn yn cymharu â 13.9 a 4.7 y cant yn haf 2017. Efallai y gellid priodoli'r gyfran uwch o gofrestriadau Blwyddyn 12 mewn TGAU Mathemateg o gymharu â TGAU Mathemateg – Rhifedd yn rhannol i'r ffaith bod mwy o arholiadau'n cael eu hailsefyll yr haf hwn yn y pwnc hwnnw, yn ogystal â'r gostyngiad mewn cofrestriadau Blwyddyn 10.

Tabl 6: Cofrestriadau TGAU Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd yn ôl grŵp blwyddyn, haf 2018 o gymharu â haf 2017

	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
TGAU Mathemateg						
2018	10	610	23,495	2,770	3,085	29,970
2017	20	10,415	25,940	2,240	3,610	42,230
Gwahaniaeth %	-52.4%	-94.1%	-9.4%	23.5%	-14.5%	-29.0%
TGAU Mathemateg - Rhifedd						
2018	*	1,765	19,565	715	950	23,000
2017	10	11,135	20,455	520	1,050	33,170
Gwahaniaeth %	-66.7%	-84.1%	-4.4%	37.7%	-9.5%	-30.7%

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Gwelwyd gostyngiad o 29.0 y cant yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg yn haf 2018 o gymharu â haf 2017. Gwelwyd ychydig yn fwy o ostyngiad, 30.7 y cant, yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd.
- Gwelwyd y newid mwyaf yr haf hwn yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10, gyda gostyngiad o 94.1 y cant ar gyfer TGAU Mathemateg a gostyngiad o 84.1 y cant ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd.
- Mae nifer fwy o gofrestriadau ar gyfer Mathemateg ym Mlwyddyn 12 o gymharu â Mathemateg – Rhifedd. Mae hyn yn cefnogi ymhellach y pwynt a wnaed uchod, sef y gallai'r ffaith bod mwy o arholiadau Mathemateg yn cael eu hailsefyll roi cyfrif am hyn.
- Gwelwyd gostyngiad o 9.4 y cant yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 11 mewn TGAU Mathemateg yn haf 2018 o gymharu â haf 2017. Gwelwyd gostyngiad llai o faint o 4.4 y cant mewn cofrestriadau Blwyddyn 11 ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd.
- Gall y gostyngiadau hyn fod yn ymwneud â'r ffaith bod y Flwyddyn 11 bresennol wedi cael y cyfle i sefyll yr arholiadau hyn mewn cyfres flaenorol: haf 2017 (fel myfyrwyr Blwyddyn 10) a mis Tachwedd 2017 (fel myfyrwyr Blwyddyn 11). Ni chafodd y myfyrwyr Blwyddyn 11 blaenorol yr un cyfle i sefyll yr arholiadau yn haf 2016 pan roeddent ym Mlwyddyn 10.

- Caiff hyn ei ategu gan y ffaith i ni nodi, ar gyfer cyfres mis Tachwedd 2017, fod 22,670 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg, yr oedd 20,350 ohonynt ar gyfer Blwyddyn 11. Mae hyn yn cymharu â 19,730 o gofrestriadau ar gyfer TGAU Mathemateg – Rhifedd, gyda 18,880 o gofrestriadau ar gyfer Blwyddyn 11 (gweler Cofrestriadau Dros Dro mis Tachwedd ar gyfer Cymru).
- Mae hyn yn golygu y gallai cyfran uchel o fyfyrwyr Blwyddyn 11 yr haf hwn fod wedi cofrestru'n flaenorol, ond efallai nad yw rhai ohonynt wedi cofrestru tan nawr.

COFRESTRIADAU LEFEL UG

SUT MAE CYFANSWM COFRESTRIADAU LEFEL UG YR HAF YN CYMHARU Â'R LLYNEDD?

Ffigur 10: Cyfanswm y cofrestriadau Lefel UG yn ôl grŵp blwyddyn, haf 2018 o gymharu â haf 2017



	Blwyddyn 11 neu is	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Blwyddyn 14 neu uwch	Cyfanswm
2017	325	36,445	10,245	1,950	48,965
2018	320	34,170	8,950	1,555	44,995
% newid	-1.2%	-6.2%	-12.7%	-20.4%	-8.1%

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Cafwyd 44,995 o gofrestriadau lefel UG ar gyfer haf 2018 yng Nghymru, 8.1 y cant yn is o gymharu â haf 2017 (48,965 o gofrestriadau).

- Mae hyn yn dangos bod nifer y cofrestriadau lefel UG yng Nghymru wedi bod yn gostwng ers haf 2015, gydag Ofqual yn nodi 57,030 o gofrestriadau yn haf 2015, a 52,260 o gofrestriadau yn haf 2016 yn ei Ddatganiad ar Gofrestriadau Arholiadau'r Haf y llynedd[9].
- Gwelwyd y nifer fwyaf o gofrestriadau ym Mlwyddyn 12, gyda 34,170 o gofrestriadau yn haf 2018.
- Cafwyd y nifer leiaf o gofrestriadau ym Mlwyddyn 11 neu is, gyda dim ond 320 o gofrestriadau ar gyfer haf 2018 (tebyg i'r 325 o gofrestriadau a gafwyd yn haf 2017).
- Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau ar gyfer pob grŵp blwyddyn yr haf hwn o gymharu â haf 2017.
- Mae nifer o ffactorau a all achosi newidiadau yn nifer y cofrestriadau (gweler dylanwadau allanol)

[9] Ofqual (2017) *Summer 2017 exam entries: GCSEs, level 1 / 2 certificates, AS and A levels in England*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/summer-2017-exam-entries-gcses-level-1-2-certificates-as-and-a-levels-in-england

SUT MAE CYFANSWM Y COFRESTRIADAU LEFEL UG AR GYFER PYNCIAU YN CYMHARU?

Tabl 8: Cyfanswm y cofrestriadau lefel UG yn ôl pwnc, haf 2018 o gymharu â haf 2017

Pwnc lefel UG	2017	2018	% Newid
Pynciau Celf a Dylunio	2,820	2,480	-12%
Bioleg	3,755	3,665	-2%
Astudiaethau Busnes	1,985	1,820	-8%
Cemeg	3,310	3,285	-1%
Pynciau Clasurol	150	120	-19%
Astudiaethau Cyfathrebu	0	0	-
Cyfrifiadura	635	620	-2%
Meddwl yn Feirniadol	0	0	-
Dylunio a Thechnoleg	1,015	905	-11%
Drama	765	620	-19%
Economeg	750	805	+8%
Peirianneg	0	0	-
Saesneg Iaith	435	430	-2%
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	1,050	915	-13%
Llenyddiaeth Saesneg	2,180	2,090	-4%
Ffrangeg	530	455	-14%
Astudiaethau cyffredinol	0	0	-
Daearyddiaeth	2,020	1,780	-12%
Almaeneg	125	100	-19%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	865	790	-9%
Hanes	3,020	2,790	-8%
TGCh	1,340	1,100	-18%
Gwyddeleg	0	0	-
Y Gyfraith	1,195	1,030	-14%
Hamdden	0	0	-
Mathemateg	5,515	4,815	-13%
Mathemateg (Pellach)	505	605	+19%
Astudiaethau'r Cyfryngau / Ffilm / Teledu	1,610	1,265	-21%
Cerddoriaeth	560	470	-16%
Celfyddydau Perfformio / Mynegiannol	20	*	-89%
Addysg Gorfforol	925	910	-2%
Ffiseg	2,385	2,355	-1%
Astudiaethau Gwleidyddol	635	570	-10%
Seicoleg	2,570	2,730	+6%
Astudiaethau Crefyddol	2,075	1,840	-11%
Gwyddoniaeth	25	0	-100%
Cymdeithaseg	2,075	1,980	-5%
Sbaeneg	235	225	-4%
Teithio a Thwristiaeth	145	10	-94%
Cymraeg Iaith Gyntaf	270	280	+4%
Cymraeg Ail Iaith	510	490	-4%
Ieithoedd Modern Eraill	225	210	-7%
Gwyddorau Eraill	350	275	-22%
Pob pwnc arall	390	165	-57%
Cyfanswm	**48,965**	**44,995**	**-8%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Mae Tabl 8 yn cymharu cyfanswm y cofrestriadau UG ar gyfer haf 2018 a haf 2017 yn ôl pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau UG etifeddol, cymwysterau UG diwygiedig ar gyfer Cymru a chymwysterau UG diwygiedig ar gyfer Lloegr. Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau lefel UG ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau yr haf hwn o gymharu â'r llynedd. Gwelwyd cynnydd mewn nifer fach o bynciau. Gwelwyd y cynnydd canrannol uchaf mewn cofrestriadau o gymharu â'r llynedd ar gyfer Mathemateg Pellach lefel UG, sef 19 y cant. Gwelwyd cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Economeg, Seicoleg a Chymraeg Iaith Gyntaf hefyd, sef 8 y cant, 6 y cant a 4 y cant yn y drefn honno.

CYMWYSTERAU LEFEL UG DIWYGIEDIG

Mae'r tri cham o gymwysterau lefel UG diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu dyfarnu yr haf hwn.

Roedd 40,660 (90.4 y cant) o gofrestriadau o gyfanswm y cofrestriadau ar gyfer haf 2018 yn rhai ar gyfer cymwysterau diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru. Dim ond cymwysterau a ddarperir gan CBAC yw'r rhain. CBAC yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau lefel UG diwygiedig a gynlluniwyd i'w defnyddio yng Nghymru. Felly, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cofrestriadau ar gyfer cymwysterau lefel UG a ddiwygiwyd i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr ac a ddarperir gan gyrff dyfarnu eraill (gweler diwygio cymwysterau).

Byddai gweddill y cofrestriadau ar gyfer haf 2018 yn gofrestriadau ar gyfer cymwysterau etifeddol a chymwysterau a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 1

Caiff cymwysterau lefel UG diwygiedig Cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru eu dyfarnu am y trydydd tro yr haf hwn, ac maent yn cyfrif am 57.3 y cant o gyfanswm y cofrestriadau lefel UG ar gyfer haf 2018.

Gwelwyd gostyngiad o 2.6 y cant yng nghyfanswm y cofrestriadau lefel UG diwygiedig cam 1 o 26,460 o gofrestriadau yn haf 2017 i 25,765 o gofrestriadau yn haf 2018. Dengys Tabl 7 yn y tablau data excel cyfatebol yr ystod o ostyngiadau ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar gyfer cofrestriadau lefel UG yn haf 2018 o gymharu â haf 2017.

Ffigur 11: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau lefel UG diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2018 o gymharu â haf 2017

Pwnc	2017	2018	Gwahaniaeth
Celf a Dylunio	2,785	2,440	-12.3%
Bioleg	3,655	3,600	-1.4%
Astudiaethau Busnes	1,880	1,795	-4.4%
Cemeg	3,220	3,190	-1.0%
Cyfrifiadura	620	610	-1.6%
Economeg	690	745	+8.0%
Saesneg Iaith	365	415	+13.1%
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	1,050	915	-13.0%
Llenyddiaeth Saesneg	2,135	2,065	-3.3%
Hanes	2,990	2,760	-7.6%
Ffiseg	2,180	2,250	+3.2%
Seicoleg	2,555	2,715	+6.3%
Cymdeithaseg	2,070	1,980	-4.4%
Cymraeg Iaith Gyntaf	270	280	+4.4%
Cyfanswm	**26,460**	**25,765**	**-2.6%**



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Mae Ffigur 11 yn dangos y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau lefel UG diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru rhwng haf 2018 a haf 2017.

- Gwelwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Saesneg Iaith (13.1 y cant).
- Gwelwyd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg (13.0 y cant), ac yna bynciau Celf a Dylunio (12.3 y cant).

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 2

Yr haf hwn yw'r eildro i gymwysterau lefel UG diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru gael eu dyfarnu, ac mae'r cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau hyn yn cyfrif am 15.0 y cant o gyfanswm y cofrestriadau lefel UG ar gyfer haf 2018.

Ffigur 12: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau lefel UG diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2018 a haf 2017

Pwnc	2017	2018	Gwahaniaeth
Drama	700	615	-85
Ffrangeg	415	445	+35
Daearyddiaeth	1,635	1,750	+115
Almaeneg	70	100	+25
Cerddoriaeth	380	405	+30
Addysg Gorfforol	765	900	+135
Astudiaethau Crefyddol	1,765	1,815	+55
Sbaeneg	180	220	+35
Cymraeg Ail Iaith	425	490	+65
Cyfanswm	**6,335**	**6,735**	**+400**



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Dengys Ffigur 12 y newid yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau lefel UG diwygiedig cam 2 rhwng haf 2018 a haf 2017.

- Gwelwyd cynnydd o 6.3 y cant yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau lefel UG diwygiedig cam 2 o 6,335 o gofrestriadau yn haf 2017 i 6,735 o gofrestriadau yn haf 2018.
- Gwelwyd cynnydd yn nifer y cofrestriadau lefel UG ar gyfer yr holl gymwysterau diwygiedig hyn ac eithrio Drama.

Y prif reswm am y cynnydd hwn oedd y cynnydd yn nifer y cofrestriadau ymhlith dysgwyr Blwyddyn 13. Y ffaith mai haf 2018 oedd y cyfle cyntaf i ddysgwyr ailsefyll yr asesiadau sydd i gyfrif am hyn fwy na thebyg.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 3

Caiff cymwysterau lefel UG diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn. Felly, ni allwn gymharu'r cofrestriadau hyn â chofrestriadau'r haf diwethaf. Roedd y cymwysterau hyn yn cyfrif am 18.1 y cant o gyfanswm y cofrestriadau lefel UG ar gyfer haf 2018.

Tabl 9: Cofrestriadau lefel UG diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl grŵp blwyddyn a phwnc, haf 2018[10]

Pwnc	Blwyddyn 11 neu is	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Blwyddyn 14 neu uwch	Cyfanswm
Dylunio a Thechnoleg	0	710	55	*	770
TGCh	0	765	80	10	855
Y Gyfraith	0	790	110	20	925
Mathemateg	15	3,285	405	60	3,770
Mathemateg Bellach	*	280	30	10	325
Astudiaethau'r Cyfryngau	0	880	115	30	1,025
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	*	415	60	15	490
Cyfanswm	**20**	**7,135**	**850**	**155**	**8,160**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru

Dengys Tabl 9 nifer y cofrestriadau lefel UG diwygiedig cam 3 ar gyfer haf 2018. Gwelwyd y nifer fwyaf o gofrestriadau yr haf hwn ar gyfer Mathemateg, gyda 3,770 o gofrestriadau.

[10] Mae TGCh wedi'i gynnwys fel cymhwyster diwygiedig yn y datganiad hwn yn unol â dosbarthiad JCQ

COFRESTRIADAU SAFON UWCH

SUT MAE CYFANSWM COFRESTRIADAU SAFON UWCH YR HAF YN CYMHARU Â'R LLYNEDD?

Ffigur 13: Cyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch yn ôl grŵp blwyddyn, haf 2018 o gymharu â haf 2017



	Blwyddyn 11 neu is	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Blwyddyn 14 neu uwch	Cyfanswm
2017	55	385	30,545	4,540	35,525
2018	80	475	28,810	4,275	33,640
% Newid	48.1%	22.9%	-5.7%	-5.9%	-5.3%

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

- Cafwyd 33,640 o gofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2018, 5.3 y cant yn is nag ar gyfer haf 2017 (35,525 o gofrestriadau).
- Mae hyn yn dangos bod nifer y cofrestriadau Safon Uwch yng Nghymru wedi bod yn gostwng ers haf 2015, gydag Ofqual yn nodi 38,480 o gofrestriadau yn haf 2015, a 37,640 o gofrestriadau yn haf 2016 yn ei Ddatganiad ar Gofrestriadau Arholiadau'r Haf y llynedd[11].
- Gwelwyd gostyngiad o 5.7 y cant mewn cofrestriadau Blwyddyn 13 yn haf 2018 (28,210 o gofrestriadau) o gymharu â haf 2017 (30,545 o gofrestriadau).
- Gwelwyd gostyngiad o 5.9 y cant hefyd yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 14 neu uwch o gymharu â'r llynedd.

[11] Ofqual (2017) *Summer 2017 exam entries: GCSEs, level 1 / 2 certificates, AS and A levels in England*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/statistics/summer-2017-exam-entries-gcses-level-1-2-certificates-as-and-a-levels-in-england

- Gwelwyd cynnydd yn nifer y cofrestriadau Blwyddyn 11 neu is a Blwyddyn 12 ar gyfer haf 2018, sef 48.1 y cant a 22.9 y cant yn y drefn honno, o gymharu â haf 2017.
- Mae nifer o ffactorau a all achosi'r newidiadau'r hyn mewn cofrestriadau (gweler dylanwadau allanol).

SUT MAE CYFANSWM Y COFRESTRIADAU SAFON UWCH AR GYFER PYNCIAU YN CYMHARU?

Tabl 10: Cyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch yn ôl pwnc, haf 2018 o gymharu â haf 2017

Pwnc Safon Uwch	2017	2018	% Newid
Pynciau Celf a Dylunio	1,910	1,980	+4%
Bioleg	2,465	2,565	+4%
Astudiaethau Busnes	1,500	1,305	-13%
Cemeg	2,180	2,135	-2%
Pynciau Clasurol	100	85	-15%
Astudiaethau Cyfathrebu	0	0	-
Cyfrifiadura	345	360	+3%
Meddwl yn Feirniadol	0	0	-
Dylunio a Thechnoleg	655	680	+4%
Drama	640	635	-1%
Economeg	560	495	-11%
Peirianneg	*	0	-100%
Saesneg Iaith	345	285	-17%
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	755	705	-7%
Llenyddiaeth Saesneg	1,875	1,685	-10%
Ffrangeg	360	340	-6%
Astudiaethau Cyffredinol	*	0	-100%
Daearyddiaeth	1,550	1,355	-13%
Almaeneg	105	70	-34%
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	680	605	-11%
Hanes	2,650	2,465	-7%
TGCh	955	800	-16%
Gwyddeleg	0	0	-
Y Gyfraith	665	645	-3%
Hamdden	0	0	-
Mathemateg	3,965	3,950	-0%
Mathemateg (Pellach)	610	610	+0%
Astudiaethau'r Cyfryngau / Ffilm / Teledu	1,065	1,060	-1%
Cerddoriaeth	415	385	-7%
Celfyddydau Perfformio / Mynegiannol	55	15	-70%
Addysg Gorfforol	615	625	+1%
Ffiseg	1,585	1,545	-2%
Astudiaethau Gwleidyddol	435	415	-5%
Seicoleg	1,590	1,600	+1%
Astudiaethau Crefyddol	1,755	1,380	-21%
Gwyddoniaeth	180	0	-100%
Cymdeithaseg	1,385	1,365	-2%
Sbaeneg	180	160	-12%
Teithio a Thwristiaeth	115	130	+11%
Cymraeg Iaith Gyntaf	235	255	+8%
Cymraeg Ail Iaith	335	285	-15%
Ieithoedd Modern Eraill	215	295	+37%
Gwyddorau Eraill	260	205	-21%
Pob pwnc arall	220	165	-25%
Cyfanswm	**35,525**	**33,640**	**-5%**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Mae Tabl 10 yn cymharu cyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2018 a haf 2017 yn ôl pwnc. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau Safon Uwch etifeddol, cymwysterau Safon Uwch diwygiedig ar gyfer Cymru a chymwysterau Safon Uwch diwygiedig ar gyfer Lloegr. Gwelwyd gostyngiad mewn cofrestriadau ar gyfer y mwyafrif o bynciau Safon Uwch yr haf hwn o gymharu â'r llynedd. Gwelwyd cynnydd mewn nifer fach o bynciau. Gwelwyd y cynnydd canrannol uchaf mewn cofrestriadau yr haf hwn o gymharu â'r llynedd ar gyfer Ieithoedd Modern Eraill, sef 37 y cant.

COFRESTRIADAU AR GYFER CYMWYSTERAU SAFON UWCH DIWYGIEDIG

Roedd 22,690 (67.4 y cant) o gofrestriadau o gyfanswm y cofrestriadau ar gyfer haf 2018 ar gyfer cymwysterau diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru. Dim ond cymwysterau a ddarperir gan CBAC yw'r rhain. CBAC yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau Safon Uwch diwygiedig a gynlluniwyd i'w defnyddio yng Nghymru. Felly, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a ddiwygiwyd i'w defnyddio'n bennaf yn Lloegr ac a ddarperir gan gyrff dyfarnu eraill (gweler diwygio cymwysterau). Bydd gweddill y cofrestriadau ar gyfer haf 2018 yn gofrestriadau ar gyfer cymwysterau etifeddol a chymwysterau a ddiwygiwyd ar gyfer Lloegr.

Mae tri cham o gymwysterau Safon Uwch diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu dyfarnu yr haf hwn.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 1

Caiff cymwysterau Safon Uwch diwygiedig cam 1 eu dyfarnu am yr eildro yng Nghymru yr haf hwn. Mae'r cofrestriadau ar gyfer y pynciau hyn yn cyfrif am 52.6 y cant o gyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2018.

Ffigur 14: Cofrestriadau Safon Uwch diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn ôl pwnc, haf 2018 o gymharu â haf 2017

Pwnc	2017	2018	Gwahaniaeth
Celf a Dylunio	1,825	1,900	+75
Bioleg	2,160	2,365	+210
Astudiaethau Busnes	925	1,245	+325
Cemeg	1,935	1,965	+30
Cyfrifiadura	310	335	+25
Economeg	480	440	-35
Saesneg Iaith	285	240	-45
Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	745	705	-40
Llenyddiaeth Saesneg	1,755	1,605	-145
Hanes	2,500	2,370	-130
Ffiseg	1,325	1,345	+20
Seicoleg	1,515	1,565	+50
Cymdeithaseg	1,350	1,340	-10
Cymraeg Iaith Gyntaf	235	255	+20
Cyfanswm	**17,340**	**17,680**	**+345**



Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Dengys Ffigur 14 y newid canrannol yn nifer y cofrestriadau Safon Uwch diwygiedig cam 1 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru rhwng haf 2018 a haf 2017.

- Er gwaetha'r gostyngiad cyffredinol mewn cofrestriadau Safon Uwch, gwelwyd cynnydd o 345 yng nghyfanswm y cofrestriadau ar gyfer pynciau diwygiedig cam 1 o gymharu â'r haf diwethaf.
- Gwelwyd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Astudiaethau Busnes (35.1 y cant). Gwelwyd y cynnydd absoliwt mwyaf o 325 o gofrestriadau rhwng haf 2017 a haf 2018 ar gyfer Astudiaethau Busnes hefyd.
- Gwelwyd y gostyngiad cyfrannol mwyaf mewn cofrestriadau ar gyfer Saesneg Iaith (16.0 y cant). Gwelwyd gostyngiad hefyd mewn cofrestriadau ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith a Llenyddiaeth Saesneg yr haf hwn, sef 8.4 y cant a 5.4 y cant yn y drefn honno.

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 2

Caiff cymwysterau Safon Uwch diwygiedig cam 2 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn ac felly dyma'r tro cyntaf y bydd dysgwyr yn gallu sefyll yr asesiadau hyn. Roedd y rhain yn cyfrif am 14.5 y cant o gyfanswm y cofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2018.

Tabl 11: Cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch diwygiedig cam 2 yn ôl grŵp blwyddyn a phwnc, haf 2018

Pwnc	Blwyddyn 11 neu is	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Blwyddyn 14 neu uwch	Cyfanswm
Drama	0	0	590	25	615
Ffrangeg	*	*	285	15	305
Daearyddiaeth	0	*	1,165	80	1,250
Almaeneg	*	*	50	*	55
Cerddoriaeth	0	0	300	20	325
Addysg Gorfforol	0	0	555	30	585
Astudiaethau Crefyddol	0	0	1,235	90	1,325
Sbaeneg	*	*	125	5	135
Cymraeg Ail Iaith	0	5	260	10	275
Total	**5**	**15**	**4,565**	**285**	**4,870**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru

Dengys Tabl 11 nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch diwygiedig cam 2 ar gyfer haf 2018. Gwelwyd y nifer fwyaf o gofrestriadau ar gyfer Astudiaethau Crefyddol (1,325 o gofrestriadau) a Daearyddiaeth (1,250 o gofrestriadau).

CYMWYSTERAU DIWYGIEDIG CAM 3

Caiff cymwysterau Safon Uwch diwygiedig cam 3 a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru eu dyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2019, ac eithrio Mathemateg a gaiff ei dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall dysgwyr sefyll cymwysterau Mathemateg lefel UG a Safon Uwch yn eu blwyddyn astudio gyntaf cyn symud ymlaen i astudio cymwysterau Mathemateg Pellach lefel UG a Safon Uwch yn eu hail flwyddyn. Cafwyd 135 o gofrestriadau ar gyfer Mathemateg Safon Uwch yn haf 2018, gan gynnwys 125 ymhlith dysgwyr Blwyddyn 12 (gweler tabl 8 yn y tablau data excel cyfatebol a gyhoeddwyd gyda'r datganiad hwn).

COFRESTRIADAU TYSTYSGRIF LEFEL 1/LEFEL 2

Tabl 12: Cofrestriadau Lefel 1/Lefel 2 yn ôl grŵp blwyddyn a phwnc, haf 2018 o gymharu â haf 2017[12]

	Blwyddyn 9 neu is	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13 neu uwch	Cyfanswm
2018						
Cyfanswm y cofrestriadau	25	110	3,355	85	15	3,590
Mathemateg Ychwanegol	*15*	*95*	*3,065*	*30*	*0*	*3,205*
Pynciau Eraill	*10*	*15*	*290*	*55*	*15*	*385*
2017						
Cyfanswm y cofrestriadau	20	60	3,225	80	10	3,395
Mathemateg Ychwanegol	*5*	*20*	*2,525*	*20*	*	*2,575*
Pynciau Eraill	*15*	*40*	*700*	*65*	*5*	*820*

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Dengys Tabl 12 fod 3,590 o gofrestriadau ar gyfer cymwysterau Lefel 1/2 yn 2018, 5.7 y cant yn uwch na nifer y cofrestriadau yn haf 2017 (3,395 o gofrestriadau).

Yn 2018, roedd cofrestriadau ar gyfer Mathemateg Ychwanegol yn cyfrif am 89.2 y cant o gyfanswm y cofrestriadau Lefel 1/2 (3,205 yn 2018). Mae hyn yn cymharu â 75.9 y cant yn 2017. Mathemateg Ychwanegol yw'r rheswm am y cynnydd yng nghyfanswm y cofrestriadau rhwng haf 2018 a haf 2017, gyda chofrestriadau ar gyfer Pynciau Eraill yn gostwng.

[12] Ymhlith y pynciau eraill mae Pynciau Celf a Dylunio, Bioleg, Astudiaethau Busnes, Cemeg, Pynciau Clasurol, Saesneg, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Hanes, TGCh, Cerddoriaeth, Ieithoedd Modern Eraill, Ffiseg a Sbaeneg.

TYSTYSGRIF HER SGILIAU BAGLORIAETH CYMRU

Fis Ebrill, aeth Cymwysterau Cymru ati am y tro cyntaf i gasglu data ar gofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn haf 2018. Felly, ni allwn wneud cymariaethau â haf 2017. Caiff ardystiadau ar gyfer Fframwaith Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau eu cyhoeddi ar hyn o bryd yn ein hystadegau chwarterol galwedigaethol[13].

Tabl 13: Cofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn ôl grŵp blwyddyn, haf 2018

	Blwyddyn 11 neu is	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Blwyddyn 14 neu uwch	Cyfanswm
Tystysgrif Her Sgiliau Uwch	0	10	10,955	2,270	13,230
Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (ôl-16)	0	50	5	5	65
Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol (ôl-16)	0	85	15	25	125
Tystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen	27,630	155	0	*	27,790
Cyfanswm	**27,630**	**300**	**10,975**	**2,300**	**41,205**

Ffynhonnell: Cyrff dyfarnu ar 17 Ebrill 2018, Cymwysterau Cymru

Dengys Tabl 13 nifer y cofrestriadau ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau yn ôl grŵp blwyddyn ar gyfer haf 2018. Cofrestriadau ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 11 neu is sy'n astudio ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Genedlaethol/Sylfaen oedd y rhan fwyaf ohonynt (27,630). Fel arfer, myfyrwyr ysgol uwchradd o oedran ysgol orfodol fydd yn astudio ar gyfer y cymhwyster hwn.

[13] Cymwysterau Cymru (2018) *Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol a Chymwysterau Eraill: Chwarter 4 (Hydref – Rhagfyr 2017) i Gymru*. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.qualificationswales.org/english/publications/vocational-quarterly-statistics/ [Gwefan a fynedwyd ar 17 o Fai 2018].

RHESTR TERMAU

Corff Dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, yn cydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu.
Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu Fyrddau Arholi.

TGAU

Mae cymwysterau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn amrywiaeth eang o bynciau. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru. Gellir eu defnyddio fel sail i astudio neu hyfforddi ar lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

Safon Uwch

Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a gaiff eu hastudio, ar ôl cymwysterau TGAU, mewn amrywiaeth o bynciau. Dysgwyr 16-18 oed sydd fel arfer yn dilyn cwrs astudio dwy flynedd sy'n eu hastudio fel arfer. Maent yn cael eu defnyddio fel sail i dderbyn myfyrwyr i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

Uwch Gyfrannol (UG)

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei gymryd fel cymhwyster ar wahân. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at ganlyniad y Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau UG gyfrannu at y Safon Uwch.

Tystysgrif Her Sgiliau

Y cymhwyster sy'n rhan ganolog o Fagloriaeth Cymru (gweler isod).
Mae angen i ddysgwyr gwblhau pedwar asesiad fel rhan o'r Dystysgrif Her Sgiliau:

- Prosiect unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyfun sy'n cynnwys Tystysgrif Her Sgiliau; mae hon yn asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc ar gyfer y coleg, prifysgol,

cyflogaeth a bywyd. Ynghyd â'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae dysgwyr yn astudio detholiad o gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol sy'n briodol i'w hanghenion er mwyn derbyn y Fagloriaeth.

Cyfnewid

Mae ysgolion a cholegau yn cofrestru myfyrwyr sy'n cwblhau cymhwyster ac sydd am hawlio eu gradd derfynol yn y sesiwn arholi honno.

Blwyddyn 10

Myfyrwyr sy'n 15 oed erbyn 31 Awst 2018.

Blwyddyn 11

Myfyrwyr sy'n 16 oed erbyn 31 Awst 2018.

Blwyddyn 12

Myfyrwyr sy'n 17 oed erbyn 31 Awst 2018.

Canolfan

Corff sy'n cyflenwi asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysg, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw'r canolfannau hyn.

Llinol

Caiff cymwysterau TGAU llinol eu cynllunio fel bod yr holl waith asesu mewn pwnc yn cael ei gwblhau ar ddiwedd y rhaglen ddysgu. - Mae hyn yn golygu bob tro y caiff disgybl ei gofrestru gan ei ysgol neu goleg i gael dyfarniad gradd, bydd angen iddo sefyll pob cydran asesu ar gyfer y cymhwyster (arholiadau, ac ar gyfer rhai pynciau, ffurfiau eraill ar asesiad dan reolaeth).

Unedol

Caiff cymwysterau unedol eu cynllunio fel y gall disgyblion gwblhau unedau asesu ar bwyntiau gwahanol yn ystod y cwrs, gyda gradd derfynol yn cael ei chyfnewid ar ddiwedd y rhaglen ddysgu ar ôl i'r disgybl gwblhau pob uned. Ar gyfer cymwysterau TGAU, mae'n rhaid i ddysgwyr gwblhau isafswm o'r asesiad er mwyn cael cymhwyster yn y gyfres lle byddant yn cyfnewid.

NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a oedd yn enwi Cymwysterau Cymru fel un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Fodd bynnag, o ystyried ein bod yn datblygu ein prosesau o hyd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol yn llawn, nid yw'r datganiad ystadegol hwn wedi cael ei gyhoeddi'n ffurfiol fel ystadegyn swyddogol ar hyn o bryd. Er hynny, wrth baratoi'r datganiad hwn, nod Cymwysterau Cymru cyhyd ag y bo modd yw gweithredu mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Ffynhonnell Data

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 wedi cyflwyno gwybodaeth i Cymwysterau Cymru am nifer y cofrestriadau ar gyfer pob cymhwyster sydd ar gael yng nghyfres haf 2018. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru mae'r cofrestriadau, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu nifer y cofrestriadau wedi'u dadansoddi yn ôl pwnc ac oedran y myfyrwyr yng Nghymru yn seiliedig ar grwpiau blwyddyn ysgol (blwyddyn 11 yw'r flwyddyn academaidd pan fydd myfyrwyr yn troi'n 16 oed).

Cyfyngiadau'r data

Mae camgymeriadau posibl yn y wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru sicrhau bod y wybodaeth a gafwyd yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer problemau systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu cwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â nhw yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod eu bod yn cael eu rheoleiddio;

- Bod yn wyliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau yn cael eu hystyried yn addas at y diben.

Mae data wedi'u casglu ar adeg briodol pan fo'n rhesymol gyflawn, sef 18 Ebrill 2018 ar gyfer data cyfres haf 2018 yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, gall ysgolion barhau i wneud cofrestriadau hwyr hyd at ddyddiad yr arholiad, felly bydd cyfanswm nifer y cofrestriadau yn newid i gofrestriadau dros dro. O ganlyniad, mae teitl y datganiad hwn yn cyfeirio at gofrestriadau dros dro.

Cymariaethau

Ar gyfer 2017/18 bydd cyrff dyfarnu yn cyflwyno data cymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli cymariaethau â data Ofqual hanesyddol.

Cwmpas Daearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU, UG, Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018 ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. **Nid** yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau a thystysgrifau Level 1/Lefel 2 a astudir y tu allan i Gymru.

Diwygiadau

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw data ar nifer y cofrestriadau fel arfer yn cael eu hadolygu, er y gall datganiadau dilynol gael eu hadolygu i gynnwys data hwyr neu gywiro camgymeriad.

Cyflawnrwydd y data

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data cofrestriadau i Cymwysterau Cymru ar gyfer yr holl gymwysterau rheoleiddiedig sydd wedi'u dosbarthu fel cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, y Dystysgrif Her Sgiliau neu dystysgrifau Lefel 1/Lefel 2. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau ar gyfer cofrestriadau eu talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir * yn lle ffigurau llai na 5 ond mwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwebaeth yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, felly rydym yn disgwyl cael gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i lywio dealltwriaeth o batrymau cofrestriadau.

Ystadegau a chyhoeddiadau perthnasol

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Datganiad Cofrestriadau Dros Dro TGAU a Thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2 mis Tachwedd ar gyfer Cymru 2017.
- Datganiad ystadegol cofrestriadau haf ar gyfer Lloegr (gyda data cyfatebol ar gyfer Cymru mewn tablau excel ar gyfer blynyddoedd academaidd hanesyddol) a gyhoeddir gan Ofqual.
- Y datganiad Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion blynyddol, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 36 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar ein gwefan ni. Mae'r gofrestr QiW yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

Y diweddariad nesaf

Mai 2019 (dros dro).

Adborth gan ddefnyddwyr

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bost i ystadegau@cymwysteraucymru.org

(h) (2018) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.